

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Vale Laser Aesthetics, Treganna,
Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 9 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
4.	Y camau nesaf	15
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	16
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	17
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	18

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Vale Laser Aesthetics Limited ar 9 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd Vale Laser Aesthetics yn ymrwymedig i ddarparu triniaethau i'r cleifion mewn amgylchedd diogel a chroesawgar. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd yr unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl y driniaeth fel y gallent wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad o ansawdd ac roedd adborth y cleifion yn adlewyrchu hyn; gyda phob un o'r cleifion yn dweud bod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hysbysu'r cleifion am ganlyniadau'r adborth a geir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adborth cadarnhaol gan gleifion
- Sicrhau bod y cleifion yn cael eu cynnwys yn llawn yn eu triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser / goleuni pwls dwys (IPL) ac i sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel. Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau da yn amlwg.

Roedd system cofnodion cleifion effeithiol ar waith, a oedd yn rhoi'r wybodaeth briodol i'r cleifion cyn ac ar ôl y driniaeth ac yn cofnodi eu cydsyniad i driniaeth.

Mae angen i'r clinig sicrhau ei fod yn gwirio'r pecyn cymorth cyntaf yn yr adeilad yn rheolaidd.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd hyfforddiant cymorth cyntaf y gweithredwr laser yn gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau priodol ar gyfer rheoli heintiau
- Sicrhau bod cofnodion cleifion yn glir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr unigolyn cyfrifol yn canolbwyntio ar y person ac yn gyfarwydd â'r triniaethau a oedd yn cael eu darparu. Roedd y clinig yn darparu gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid ac nid oedd y lleoliad wedi cael unrhyw gwynion.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dogfennu cyfarfodydd tîm yn ffurfiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau ar waith a'u bod yn gyfredol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 12 o holiaduron wedi'u cwblhau. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a'r sylwadau yn gadarnhaol ar gyfer pob maes. Dywedodd pob un o'r 12 o gleifion fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

“Ni allai unrhyw beth wella'r profiad gwych rwyf wedi ei gael, ac rwy'n parhau i'w gael.”

“Hwn yw'r clinig gorau rwyf erioed wedi ei ddefnyddio. Staff cyfeillgar a phroffesiynol iawn... hoffwn grybwyll fy mod i'n hapus iawn â phob apwyntiad...”

“Gwasanaeth gwych ac mae'n hawdd siarad â'r gweithiwr proffesiynol yma.”

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu hanes meddygol cynhwysfawr cyn eu triniaeth gychwynnol, ac eto cyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau fod yr hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf a gweithredwr y laser.

Cadarnhaodd pob un o'r 12 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol cyn ymgymryd â thriniaeth.

Urddas a pharch

Dim ond un claf a welwyd yn y clinig yn ystod ein harolygiad a chafodd ei drin ag urddas a pharch.

Roedd y cleifion o'r farn fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael a risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn. Roedd pob un o'r ymatebwyr o'r farn eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod wedi cael digon o gyfarwyddiadau ôl-ofal. Mae rhai o'r sylwadau a gafwyd am ofal cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Staff cyfeillgar, sydd bob amser yn gwrtais ac yn cymryd eu hamser...”

“Mae triniaethau bob amser yn cael eu cynnal ag urddas a chaiff fy nymuniadau eu parchu.”

“Mae Julie yn dechnegydd laser gwybodus iawn a gwnaeth yn siŵr fy mod yn mwynhau fy nhriniaethau.”

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i gleifion eu cadw, a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir. Roedd gwybodaeth am driniaethau ar wefan y clinig hefyd, ynghyd â'r broses gwyno.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion drefnu ymgynghoriad dros y ffôn, ar y wefan neu drwy fynd i'r clinig. Ar ôl i'r apwyntiad gael ei gadarnhau, byddai'r cleifion yn cael y gwaith papur perthnasol i'w gwblhau, gan gynnwys eu hanes meddygol.

Dim ond yn Saesneg roedd y rhan fwyaf o'r ddogfennaeth ar gael. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw aelod o'r staff yn y lleoliad yn siarad Cymraeg. At hynny, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw alw am gyfieithiadau ar gyfer ieithoedd eraill ar hyn o bryd.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael gwybod y costau cyn iddynt gael triniaeth a'u bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. Dim ond dau o'r 12 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur a ddywedodd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Fodd bynnag, cadarnhaodd y ddau glaf hwnnw na chawsant gynnig cyfle rhagweithiol i siarad Cymraeg yn ystod eu triniaeth. Cadarnhaodd y ddau glaf nad oedd gwybodaeth am ofal iechyd ar gael iddynt yn eu dewis iaith.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd tystiolaeth bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu cydsyniad ysgrifenedig ar ddechrau pob cwrs o driniaeth. Cadarnhaodd pob claf ei fod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth newydd.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn esbonio'r triniaethau i'r cleifion yn llawn cyn gofyn iddynt gydsynio. Ar yr un pryd, byddai'r cleifion yn cael gwybod am fuddiannau a risgiau'r driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn trafod y pris yn ystod yr apwyntiad, y byddai'r claf yn cael prawf croen ac wedyn yn trefnu apwyntiad arall yn y clinig i gael y driniaeth. Roedd y clinig hefyd yn anfon negeseuon cadarnhau apwyntiadau drwy negeseuon e-bost a negeseuon testun. Roedd cyfarwyddiadau ôl-ofal yn cael eu rhoi i'r cleifion hefyd.

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal heintiau a hwyluso'r broses wella. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau clir o ran sut i gadw golwg am arwyddion a symptomau o haint, a chanllawiau clir ar beth i'w wneud a phwy i gysylltu ag ef pe byddai haint neu argyfwng. Dywedodd y cleifion fod y staff yn esbonio beth roeddent yn ei wneud drwy gydol y triniaethau a'u bod yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Ni ddywedodd unrhyw gleifion eu bod wedi cael adweithiau andwyol yn dilyn triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y clinig wedi'i leoli ar lawr gwaeled clinig arall, ac er bod mynediad ar gyfer cleifion â phroblemau symudedd, byddent wedi'u cyfyngu rywfaint wrth geisio symud o amgylch yr ystafell drin. Roedd y wefan yn cyfeirio at bolisi prisiau hyblyg ac yn nodi bod y clinig yn ystyriol o amgylchiadau unigol. Dywedwyd wrthym fod y clinig yn trin pob claf yr un fath.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Disgrifiwyd y broses a ddefnyddir i gasglu barn y bobl sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau. Roedd hyn yn cael ei wneud ar-lein yn bennaf ar wefannau cyfryngau cymdeithasol, gan ofyn i'r cleifion roi adolygiad. Er i ni gael gwybod fod y staff yn gofyn am adborth ad hoc gan y cleifion ar ôl eu triniaeth, nid oedd proses ar gyfer casglu adborth ffurfiol nac ar gyfer cynnal dadansoddiad o'r adborth hwnnw. O ganlyniad, nid oedd y cleifion yn cael gwybod am ganlyniadau'r adborth hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y risgiau i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu rheoli a'u lleihau i'r eithaf. Roedd gwiriadau diogelwch priodol ar waith, gan gynnwys tystysgrif diogelwch nwy flynyddol a gwiriadau o wifrau bob pum mlynedd. Gwelsom y ddogfennaeth a oedd wedi cael ei chwblhau gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau mewn perthynas ag asesiadau risg, a oedd wedi cael eu hadolygu bob blwyddyn.

Roedd y trefniadau ar gyfer diogelwch tân wedi cael eu cwblhau ar y cyd â'r adeilad lle roedd y clinig wedi'i gyd-leoli â chlinig arall. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys gwasanaethu'r diffoddwyr tân, cynnal ymarferion tân ac asesiad risg tân blynyddol.

Fodd bynnag, nodwyd bod y pecyn cymorth cyntaf yn cynnwys plasteri a rhwymynnau yr oedd y dyddiad defnyddio ar eu cyfer wedi mynd heibio, ac nad oedd yr hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer yr unig weithredwr yn y clinig, sef yr unigolyn cyfrifol hefyd, yn gyfredol. Ymdriniwyd â'r materion hyn drwy broses hysbysiadau diffyg cydymffurfio AGIC. Cyfeirir at y rhain yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiwyd y broses a ddefnyddir i sicrhau bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer rheoli heintiau yn y clinig, a oedd yn cynnwys defnyddio cyfarpar untro a diheintio'r cyfarpar arall. Disgrifiwyd defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol hefyd.

Gwelsom yr amserlenni glanhau dyddiol, wythnosol a misol ar gyfer yr adeilad, a oedd yn cynnwys y clinig, ar gyfer y tri mis diwethaf.

Nid oedd y newidiadau perthnasol a roddwyd ar waith yn ystod COVID-19 yn cael eu gweithredu mwyach. Fodd bynnag, roedd masgiau a hylif diheintio dwylo ar gael. Roedd polisi rheoli heintiau cyfredol ar waith hefyd.

Roedd gwastraff ac offer miniog yn cael eu gwaredu gan ddefnyddio contractau'r adeilad, yr oedd pob un ohonynt wedi'i drefnu â chlodwr gwastraff cymeradwy.

Roedd y cleifion o'r farn bod y lleoliad yn lân a bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â gofynion COVID-19 i'w gweld. Nododd un claf:

“Mae'r clinig yn lân iawn, iawn.”

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Disgrifiwyd y systemau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y clinig yn hyrwyddo ac yn amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed, ac fe'u gwiriwyd.

Er bod y clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaethau i gleifion 13 oed a throsodd, dywedwyd wrthym nad oedd y clinig wedi trin unrhyw blant. Dywedwyd wrthym mai dim ond yng nghwmni rhiant neu warcheidwad y gallai plant fynychu'r clinig. Disgrifiwyd y broses a fyddai'n cael ei defnyddio pe byddai plant yn mynychu'r clinig. Roedd y broses hon yn cynnwys esbonio'r driniaeth mewn ffordd y byddai'r plentyn yn ei deall a siarad yn uniongyrchol â'r plentyn. Byddai amser ychwanegol yn cael ei neilltuo yn ystod yr apwyntiad i esbonio'r broses.

Roedd polisi amddiffyn plant ac oedolion ar waith a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol a'r tîm ar ddyletswydd y tu allan i oriau. Roedd y gweithredwr laser yn gymwys hyd at lefel dau ar ddiogelu oedolion a phlant.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd contract ar waith gyda'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig yr oedd y ddau ohonynt yn gallu gweithredu'r peiriant laser, pe byddai angen. Nodwyd gennym fod y rheolau lleol yn cynnwys cynlluniau wrth gefn a oedd yn nodi beth y dylid ei wneud pe byddai digwyddiad neu pe byddai rhywun yn cael anaf.

Roedd y peiriant laser yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn ac roedd yr archwiliad diweddaraf gofynnol wedi'i gynnal. Roedd protocolau triniaeth meddygol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser hefyd ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom dystiolaeth ym mhob un o'r cofnodion cleifion a welsom fod profion croen wedi cael eu cynnal. Nododd y cleifion hefyd eu bod yn cael prawf croen er mwyn penderfynu ar osodiad diogel ac effeithiol ar gyfer y laser cyn cael triniaeth.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd sbectol amddiffynnol ar gael, a dywedwyd wrthym ei bod yn cael ei harchwilio bob dydd fel rhan o'r gweithdrefnau agor dyddiol. Roedd y sbectol amddiffynnol a welsom mewn cyflwr da ac nid oedd unrhyw ddifrod amlwg arni.

Roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant craidd gwybodaeth a hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser. At hynny, roedd y gweithredwr laser yn meddu ar dystysgrif lefel pedwar ar gyfer gwaredu blew gan ddefnyddio laser a goleuni pwls dwys.

Cadarnhaodd y gweithredwr laser fod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gloi pan na fydd yn cael ei ddefnyddio a bod yr allwedd yn cael ei chadw'n ddiogel yn yr ystafell drin.

Rheoli cofnodion

Roedd system addas ar waith er mwyn sicrhau diogelwch a chyfrinachedd cofnodion y cleifion, a dim ond y gweithredwr laser allai eu gweld. Dim ond ers tair blynedd roedd y clinig wedi bod ar agor ac roedd pob cofnod ar gyfer y cyfnod hwn ar gael mewn ffeil.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom dystiolaeth fod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon dda.

Roedd cofrestr triniaethau cleifion ar waith ac roedd modd ei gweld drwy lawrlwytho'r rhaglen a ddefnyddir ar gyfer apwyntiadau a'r triniaethau a gaiff eu darparu. Awgrymwyd y dylai'r clinig gynnwys gwybodaeth ychwanegol a fyddai fel arfer yn cael ei darparu ar gofrestr triniaethau, yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd polisiau a gweithdrefnau'r clinig yn gyfredol. Roeddent wedi cael eu hadolygu ym mis Mai 2022 ac roedd yr unigolyn cyfrifol wedi eu darllen. Rhoddwyd yr adroddiad blynyddol diweddaraf i ni, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Dywedwyd wrthym fod yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig yn cyfarfod yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarfodydd hyn wedi cael eu cofnodi yn y gorffennol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno gyfredol ar waith ac roedd y canllaw i gleifion yn cyfeirio at y weithdrefn hon hefyd. Roedd gwefan y clinig yn cynnwys gwybodaeth am sut i gwyno hefyd. Roedd gwybodaeth bellach, gan gynnwys cyfeiriad at AGIC, ar gael yn y polisi cwynion, a oedd hefyd yn gyfredol.

Dywedwyd wrthym fod cofnodlyfr cwynion ar waith. Fodd bynnag, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion ar ôl triniaeth.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a hyfforddi sy'n briodol ar gyfer eu rôl. Roedd tystiolaeth hefyd i ddangos bod y rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo'r gweithredwr laser a bod arfarniad blynyddol yn cael ei gynnal.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nid oedd unrhyw aelodau o staff wedi cael eu recriwtio gan y clinig.

Roedd gan yr unigolyn cyfrifol wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Yn ogystal, roedd yn ofynnol cwblhau ardystiad blynyddol i gadarnhau na fu unrhyw newidiadau i'r statws hwn ers gwiriad blaenorol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Vale Laser Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 9 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r unigolyn cyfrifol bob amser sicrhau bod gan y clinig swyddog cymorth cyntaf wedi'i hyfforddi'n briodol, ac y caiff tystiolaeth o hyn ei darparu i AGIC. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol bob amser sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf cyfredol ar gael yn y clinig.	Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a), a 26(2a) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae pedwar swyddog cymorth cyntaf ar gael, ac mae un ohonynt bob amser ar ddyletswydd pan fydd y clinig ar agor. Mae cwrs cymorth cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer yr unigolyn cyfrifol ym mis Mawrth 2023.	Unigolyn Cyfrifol	31 Mawrth 2023

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Mandy Davies

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 19 Chwefror 2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Vale Laser Aesthetics

Dyddiad yr arolygiad: 9 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y gofynnir am adborth yn rheolaidd ac y caiff canlyniadau'r adborth hwnnw a'r camau a gymerwyd o ganlyniad iddo eu dangos yn y clinig a'u cynnwys yn y canllaw i gleifion.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 5, Ymgysylltu â Dinasyddion a Cheisio Adborth. Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 19	Rhoddir adborth ar lafar a thrwy adolygiadau ar Facebook a Google. Rydym yn rhoi ffurflen adborth i'r cleifion ei chwblhau os byddant am wneud hynny, a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn y canllaw i gleientiaid.	Mandy Davies	1 Mai 2023
Mae'n ofynnol i'r unigolyn cyfrifol ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y caiff cyfarfodydd	Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Safon 25, Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol.	Caiff cyfarfod blynyddol ei gynnal â'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn	Mandy Davies	31 Gorffennaf 2023

rheolaidd a gynhelir yn y clinig eu cofnodi.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20	cyfrifol, a bydd y ddau yn llofnodi'r cofnodion.		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mandy Davies

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 24 Ebrill 2023